**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

# Gweithdrefnau Diogelu Cymru

# 'Beth sy'n Wahanol?'
# Diogelu Oedolion

# Canllaw Cyflym i Newidiadau Allweddol

**Tasglu o ymarferwyr diogelu Gwent sydd wedi nodi'r newidiadau allweddol a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn.**

**Mae'r Ddyletswydd i Adrodd wedi bod yn ymarfer cydnabyddedig yng Ngwent ers cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), felly i lawer o ymarferwyr (y tu allan i'r awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu), mae'r prif newidiadau'n ymwneud â thermau newydd, cyflwyno rôl y Person Diogelu Dynodedig (PDD), a newidiadau mewn pwyslais mewn agweddau fel cyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar y person, eiriolaeth, ac ati.**

**I awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu, bydd effaith y gweithdrefnau newydd i oedolion ar brosesau mewnol yn fwy arwyddocaol.**

**Mae rhai agweddau yn y gweithdrefnau newydd yn agored o hyd i rywfaint o ddehongli, felly os bydd rhywun sy'n darllen y canllaw hwn yn poeni am unrhyw wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Fusnes Diogelu Gwent er mwyn gallu dilyn unrhyw broblemau neu bryderon i fyny.**
**DiogeluGwent@caerffili.gov.uk**

## Adran 1

### EGWYDDORION DIOGELU AC YMARFER EFFEITHIOL: OEDOLION SYDD MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH AC/NEU ESGEULUSTOD

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, y ddeddfwriaeth sydd wrth eu gwraidd, canllawiau a'r gweithdrefnau. Mae'n disgrifio bod arfer effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os bydd cysondeb ym mhob un o'r uchod. Yn yr adran hon, darperir diffiniadau o oedolion sy'n wynebu risg camdriniaeth ac esgeulustod, ynghyd â'r arwyddion o gamdriniaeth.

Mae diogelu effeithiol yn gofyn bod pob ymarferwr a sefydliad yn chwarae eu rhan yn y broses a'u bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad, ac yn eu dilyn. Mae'r canllaw '*Ymdrin ag Achosion Unigol*' yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai fod wrth wraidd systemau diogelu i blant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Mae'n diffinio dull sy'n canolbwyntio ar y person, gan gydnabod:

- y dylai hawliau'r unigolyn fod o'r pwys mwyaf i'r dull,
- y dylai eu budd gorau bob amser fod o'r pwys mwyaf,
- y dylid canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,
- pwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn,
- rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn,
- rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cefnogaeth briodol i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer:**

- Dylid cynnig **ymyrraeth gynnar** i unigolion, lle bynnag y bo'n bosibl, i'w hatal rhag dod yn oedolion mewn perygl ac mae'n hanfodol bod yr oedolyn yn chwarae rhan weithgar wrth benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu ei anghenion.
- Caiff mabwysiadu **dull sy'n canolbwyntio ar y person, a chyd-gynhyrchu gyda'r oedolyn mewn perygl**, ei bwysleisio gydol y gweithdrefnau newydd
- Bydd ar ymarferwyr angen y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn cymhwyso'r egwyddorion diogelu; mae angen i reolwyr ac asiantaethau ategu datblygiad parhaus sgiliau/gwybodaeth berthnasol ymhlith staff, yn ogystal â sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gefnogi cyd-gynhyrchu, dulliau o weithio sy'n canolbwyntio ar y person, a galluogi ymgysylltu ag oedolion mewn perygl yn y ffyrdd y mae'r gweithdrefnau newydd yn eu hawgrymu.

## Adran 2

### Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM OEDOLYN SYDD MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH A/NEU ESGEULUSTOD

O dan Adran 162 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), cyflwynwyd y Ddyletswydd i Adrodd ar bartneriaid perthnasol ac yr un yw hyn yn y gweithdrefnau newydd. Er nad yw'r trydydd sector yn cael ei ystyried yn bartner perthnasol, ystyrir bod yr un disgwyliadau a'r rhwymedigaethau yn berthnasol.

Yn Adran 2 i gyd, mae ffocws ar ddull sy'n canolbwyntio ar y person. Hefyd, mae symud tuag at wreiddio ymarfer gorfodol ychwanegol mewn meysydd y'u hystyriwyd yn fwy o 'arfer gorau' yn flaenorol.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer**

- Mae angen i'r **Ffurflen Dyletswydd i Adrodd** amlasiantaethol, ranbarthol adlewyrchu ffyrdd o weithio sy'n 'canolbwyntio ar y person', gan gynnwys safbwynt y cleient ynghylch canlyniadau diogelu (Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r Ffurflen Dyletswydd i Adrodd, System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ac ati; pan fydd wedi'i chwblhau, bydd y Ffurflen ddiwygiedig hon ar gael trwy wefan Diogelu Gwent)
- Yn awr, rhaid darparu tystiolaeth o ganlyniad sy'n canolbwyntio ar y person e.e. a yw'r person yn teimlo'n ddiogelach?
- Mabwysiadwyd y termau '**Adroddiad/Hysbysiad'** (h.y. atgyfeirio) a '**Lluniwr Hysbysiad**' (yr atgyfeiriwr)
- Dylai'r Awdurdod Lleol (ALl) adrodd yn ôl/cydnabod yn benodol fod y ffurflen Ddyletswydd i Adrodd wedi dod i law ... mae hyn bellach yn orfodol yn hytrach nag yn arfer gorau
- Bydd angen ystyried Ffurflenni Dyletswydd i Adrodd diogelu pobl 'mewn perygl' nawr... mae hyn bellach yn orfodol yn hytrach nag yn arfer gorau
- Os bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ar drywydd hysbysiad diogelu **yn groes i ddymuniadau'r person,** bydd angen gallu cyfiawnhau'r rhesymau dros wneud. Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu sawl maes lle y gallai fod angen ystyried hyn e.e. pan allai tystiolaeth bwysig gael ei cholli, pan y gofalwr neu aelod o'r teulu fydd y camdriniwr posibl, neu os yw gwneud er budd y cyhoedd
- Os penderfynir bwrw ymlaen yn groes i **gydsyniad** y person, bydd angen i ni roi gwybod i'r oedolyn mewn perygl
- Rôl newydd y **Person Diogelu Dynodedig (PDD)**
  *Y 'Person Diogelu Dynodedig' yw'r person a enwebwyd yn y sefydliad (y tu allan i'r ALl):*
  - *sydd ar gael i drafod* pryderon diogelu
  - *y dylid ymgynghori ag ef pan fo'n bosibl ynghylch codi pryder diogelu â'r awdurdod lleol*
  - *fydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd yn syth i sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl yn ddiogel rhag camdriniaeth*

  *Dylai'r holl ymarferwyr wybod pwy y dylid cysylltu â nhw yn eu hasiantaeth am gyngor. Er y dylid gwneud pob ymdrech i geisio cyngor gan y swyddog diogelu dynodedig, mae'n bosibl y bydd angen i'r ymarferydd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol petai cysylltu â'r swyddog diogelu dynodedig yn arwain at oedi diangen*

- Wrth geisio cyngor gan y tîm diogelu, ar ôl y drafodaeth, lluniwr yr hysbysiad sy'n gyfrifol o hyd am benderfynu p'un ai i wneud hysbysiad ai peidio.
- Mae'r gweithdrefnau newydd yn cymryd **galluedd** yn ganiataol
- Mae'n rhoi rhagor o eglurder ynghylch ystyried **galluedd** – dylai'r tîm diogelu hefyd ystyried lefel y **straen** y gall fod ar y person

- Mae dogfen **Canllaw ar Drothwyon** ranbarthol, newydd, wrthi'n cael ei datblygu yng Ngwent i gynorthwyo â hysbysiadau mwy priodol o dan y Ddyletswydd i Adrodd a bydd ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gwent cyn hir.

## Adran 3 rhannau 1 a 2

### YMATEB I ADRODDIAD AM OEDOLYN SY'N WYNEBU RISG O GAEL EI GAM-DRIN A/NEU EI ESGEULUSO

Mae'r adran hon yn cynnig canllaw ar gyfer ymateb i hysbysiad, gan gynnwys amlinellu'r tasgau – diffinio rolau'r '**Lluniwr Hysbysiad**' '**Y sawl sy'n derbyn hysbysiad**', cysylltu â'r Heddlu ac amlinellu'r prosesau – mae hyn yn cynnwys **ymholiadau A126** a manylion am sut i ymateb i hysbysiad, y broses ar gyfer **trafodaeth/cyfarfod strategaeth**, ynghyd â gweithdrefnau'n ymwneud â sefyllfaoedd cymhleth.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer**:

- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno arweiniad penodol ar feysydd y dylai ymholiadau A126 ymdrin â nhw.
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno amserlen ar gyfer gweld yr oedolyn o dan bump o amgylchiadau penodol (Anaf corfforol, Cam-drin rhywiol, Eisoes yn destun cynllun diogelu, Esgeulustod difrifol / risg difrifol arall i iechyd, Wedi'i adael ar ei ben ei hun)
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno 3 chanlyniad posibl i ymholiadau A126 ('penderfyniadau') ynghyd â 'dim gweithredu pellach' yn opsiwn posibl
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno geirfa newydd – Cydlynydd Arweiniol ('y Rheolwr Arweiniol Dynodedig gynt') ac Ymarferwr Arweiniol (fe'i neilltuir i weithiwr cymdeithasol, fel arfer)
- Cyflwynir gweithdrefnau newydd ynghylch dirprwyo cyfrifoldebau am gynnal ymholiadau i asiantaethau partner, fel iechyd, ond mae angen eglurhad ychwanegol ac arweiniad mwy penodol (gweler isod).
- Mae rôl yr Ymarferwr Arweiniol yn nodi cyfrifoldebau o ran y cynllun gofal a chymorth parhaus
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno meysydd penodol y dylai cyfarfodydd strategaeth dalu sylw iddynt
- Mae'r gweithdrefnau'n cyflwyno newidiadau i'r broses ar gyfer y gynhadledd amddiffyn oedolyn (mae hyn yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer darparu adroddiadau gan asiantaethau – 2 ddiwrnod cyn y gynhadledd, a disgwyliad clir fod y cadeirydd yn cyfarfod â'r oedolyn mewn perygl cyn ac ar ôl y gynhadledd, arweiniad ar alluogi'r person mewn perygl i gael at wybodaeth a gesglir fel rhan o'r adroddiad ymchwilio)

Mae'r goblygiadau ar gyfer mabwysiadu'r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys yr angen i ddatblygu ffurflenni newydd/diwygiedig a'r seilwaith perthnasol yn y systemau electronig i ategu'r ymarfer hwn (maent wrthi'n cael eu datblygu yng Ngwent), yn ogystal â hyfforddiant i staff a fydd yn 'Llunwyr Hysbysiadau' (mae staff gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth, oherwydd nhw yw prif ffynhonnell adroddiadau ochr yn ochr â staff o'r maes amlasiantaethol) a'r 'Sawl sy'n Derbyn Hysbysiadau' (timau diogelu a/neu wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth).

Mae rhai pethau penodol i'w hystyried o ran dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod cam ymholi a'r rhyngwyneb rhwng yr ALl a phartneriaid fel iechyd. Mae'r gweithdrefnau newydd yn cydnabod y gall ymholiadau gael eu dirprwyo i asiantaethau partner, fel iechyd; fodd bynnag, nid oes arweiniad clir ynghylch pryd/sut y dylai hyn ddigwydd. Nid yw'n glir a yw penderfyniadau sgrinio cychwynnol yn cael eu gwneud gan yr ALl yn unig, neu p'un a ellir dirprwyo hyn i bartner fel iechyd. Nid oes arwydd ynghylch p'un a ddylai penderfyniadau sgrinio gael eu gwneud ar y cyd ag iechyd pan fydd pryder yn ymwneud ag iechyd.

Yr ALl sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i benderfynu ar ganlyniad ymholiadau A126, hyd yn oed pan fydd asiantaeth arall yn cynnal ymholiadau, felly, bydd angen gweithio/gwneud penderfyniadau ar y cyd ag iechyd ar gyfer achosion iechyd sydd wedi'u dirprwyo, oherwydd natur glinigol yr ymholiadau hyn.

Mae'r gweithdrefnau newydd hyn yn codi cwestiynau ynghylch ymgymryd â rôl yr Ymarferydd Arweiniol gan nyrs, oherwydd bod gan y rôl hon gyfrifoldebau clir yn ymwneud â'r Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth parhaus. Ymddengys na fyddai nyrs yn gallu cyflawni holl swyddogaethau'r rôl hon, dim ond yr agweddau hynny sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae dirprwyo i asiantaethau partner, fel iechyd, hefyd yn codi cwestiynau ynghylch pwy fydd yn cadw'r cofnodion ar gyfer ymholiadau wedi'u dirprwyo.

Camau rhanbarthol/gwaith sy'n mynd rhagddo:

- Diwygio'r ffurflen Dyletswydd i Adrodd
- Cytuno/creu Adnodd Sgrinio
- Llunio ffurflen i ddarparu tystiolaeth o ymholiadau a chanlyniadau A126
- Datblygu sail resymegol ar gyfer dirprwyo rôl y cydlynydd arweiniol (Memorandwm Dealltwriaeth)
- Cytuno/creu agendâu newydd ar gyfer cyfarfodydd
- Datganiad Cyfrinachedd newydd
- Diwygio'r cynllun diogelu
- Cydweithio â Bwrdd Prosiect Cenedlaethol Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chael eglurhad ynghylch dirprwyo cyfrifoldebau

Ystyriaethau eraill:

- Ystyried sut rydym ni'n rheoli/hwyluso cynadleddau achos
- Deall, gwerthfawrogi a lledaenu manylion am effaith bosibl gweithdrefnau newydd o ran timau / galluedd gweithredol
- Ystyried a chadarnhau agweddau'n ymwneud â dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod cam ymholi (gan gynnwys pwy fydd yn cadw cofnod o'r ymholiad) a'r rhyngwyneb rhwng yr ALI a phartneriaid, fel iechyd (darparer canllawiau)
- Egluro geirfa (trafodaeth/cyfarfod strategaeth)
- Cadarnhau p'un a yw rôl y Cydlynydd Arweiniol yn cael ei neilltuo cyn neu ar ôl ymholiadau
- Ystyried cyfyngiadau gweithwyr proffesiynol eraill (fel nyrsys), o ran eu gallu i gyflawni holl swyddogaethau rôl yr Ymarferwr Arweiniol (yna eglurhad a/neu ganllawiau ychwanegol i ddilyn)
- Ystyried a chadarnhau sut bydd rôl yr Ymarferwr Arweiniol yn rhyngwynebu ag achosion iechyd/dirprwyedig
- Ystyried meini prawf/canllawiau trothwy o ran y sefyllfaoedd pan ddylid gweld oedolion mewn perygl ar yr un diwrnod: anaf corfforol, cam-drin rhywiol, eisoes yn destun cynllun diogelu, esgeulustod difrifol / risg difrifol arall i iechyd, wedi'i adael ar ei ben ei hun.

## Adran 4

### Cynlluniau ac ymyriadau ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso

Mae'r adran hon yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr o ran cynllunio a chyflawni ymyriadau i ddiwallu anghenion amddiffyn, gofal a chymorth oedolyn mewn perygl.

Mae Adran 4 yn rhoi arweiniad ar y ffordd y cyflawnir hyn trwy ddarparu cynllun diogelu gofal a chymorth. Mae gan ymarferwyr rolau a chyfrifoldebau clir o ran y cynllun diogelu gofal a chymorth. Yn y gweithdrefnau newydd, mae ffocws clir ar gyd-gynhyrchu o ran datblygiad y cynllun diogelu gofal a chymorth a mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar gryfder. Bydd angen i'r ffocws ganolbwyntio ar y person a bydd angen gwneud trefniadau sylweddol i alluogi'r oedolyn mewn perygl i gymryd rhan mewn datblygu ei gynllun diogelu gofal a chymorth.

Mae'r eirfa newydd a'r newidiadau wedi'u cymhwyso i rolau presennol, a fydd yn cynnwys datblygiad y Cydlynydd Arweiniol, yr Ymarferwr Arweiniol a'r Cydlynydd Arweiniol dirprwyedig. Mae rôl yr Ymarferwr Arweiniol wedi newid yn sylweddol a bydd angen i ymarferwyr ddeall eu dyletswyddau statudol newydd, a

fydd yn cynnwys gweld yr oedolyn o fewn 5 niwrnod gwaith o’r cyfarfod/trafodaeth strategaeth, gydag ymweliadau bob 4 wythnos wedi hynny.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer**

- Y **Cydlynydd Arweiniol** yw’r teitl newydd ar gyfer y Rheolwr Arweiniol Dynodedig

- Mae’r **Cydlynydd Arweiniol Dirprwyedig** yn debygol o fod yn uwch-weithiwr proffesiynol sy’n ymgymryd â’r rôl, ond yn cael ei gyflogi gan sefydliad arall, er enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Mae’n debygol mai’r gweithiwr cymdeithasol / cydlynydd gofal a neilltuwyd fydd yr **Ymarferwr Arweiniol** a bydd yn gyfrifol am ddiweddaru’r cynllun diogelu gofal a chymorth. Cyfrifoldeb yr ymarferwr arweiniol fydd sicrhau bod y cynllun yn cofnodi **anghenion gofal a chymorth holistig** yr oedolyn, ddylai **ganolbwyntio ar y person** a bod yn **seiliedig ar gryfderau.** Ni fydd cynllun amddiffyn oedolyn ar wahân mwyach. Bydd yr holl feysydd angen yn cael eu cofnodi ar un cynllun diogelu gofal a chymorth.

- Bydd yr Ymarferwr Arweiniol yn gyfrifol am ymgysylltu â’r oedolyn ac am sicrhau, lle y bo’n bosibl, bod yr oedolyn yn cyfrannu at ddatblygu ei **gynllun diogelu gofal a chymorth**

- Mae ffocws ar **ymgysylltu â’r oedolyn**, a chael ei farn a’i ddymuniadau yn rheolaidd

- Dylai’r cynllun diogelu gofal a chymorth gael ei adolygu’n rheolaidd gan y **Grŵp Strategaeth** (mynychwyr y cyfarfod/trafodaeth strategaeth)

- Bydd yr Ymarferwr Arweiniol yn gyfrifol am ddiweddaru’r cynllun diogelu gofal a chymorth i sicrhau ei fod yn cynnwys anghenion gofal a chymorth holistig yr oedolyn

- Bydd y cynllun diogelu gofal a chymorth yn ceisio dileu neu leihau risg, gyda’r pwyslais ar strategaeth rheoli risg i gynorthwyo’r oedolyn i **gyflawni ei ganlyniad dymuniedig**

Camau rhanbarthol/gwaith sy’n mynd rhagddo:

- Ystyried sut bydd yr ymweliadau statudol bob 4 wythnos yn cael eu rheoli a’u cofnodi
- Datblygu cynllun gofal a chymorth y gellir ei gadw yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ac y gellir ei ddiwygio yn dilyn adolygiadau rheolaidd
- Datblygu ymyrraeth hyfforddi Cam 3 (ALl ac Iechyd) yn gysylltiedig â rolau a chyfrifoldebau’r Cydlynydd Arweiniol a’r Ymarferwr Arweiniol

## Adran 5

### HONIADAU/PRYDERON DIOGELU YNGHYLCH YMARFERWYR A’R RHAI HYNNY MEWN SWYDDI O YMDDIRIEDAETH

Mae Adran 5 yn amlinellu ymateb statudol yr Awdurdod Lleol i bryderon am ymarferwyr (pryderon proffesiynol yn flaenorol). Yn draddodiadol, mae pryderon proffesiynol wedi’u nodi, eu hasesu a’u rheoli’n rhan o’r broses Diogelu Oedolion, mae’r gweithdrefnau newydd hyn yn gofyn am broses ar wahân ar gyfer pryderon am ymarferwyr (term cynhwysol i bawb) sy’n gallu cyd-redeg â’r broses ddiogelu, neu yn absenoldeb oedolyn y nodwyd ei fod mewn perygl, ar ei ben ei hun.

Mae’r ymagwedd hon yn debyg i’r ymagwedd ar gyfer Gwasanaethau Plant ac mae’n newid sylfaenol mewn ymarfer. Yn hynny o beth, bydd y goblygiadau ar gyfer mabwysiadu’r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys yr angen am ddatblygu cyfres newydd o ffurflenni a’r seilwaith perthnasol yn System

Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i ategu'r ymarfer hwn; yn ogystal, bydd angen hyfforddiant i staff diogelu craidd, y bydd angen iddynt roi'r newid hwn i ymarfer gweithredol o ddydd i ddydd ar waith. At hyn, bydd angen codi ymwybyddiaeth ar sail amlasiantaethol.

**Newidiadau/symudiadau allweddol mewn ymarfer**:

- Bellach, mae angen ystyried atgyfeiriadau diogelu oedolion sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol/pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth o dan y Protocol Pryderon Proffesiynol
- Nid oes cyfeiriad yn y gweithdrefnau newydd at b'un a fyddai'n addas dirprwyo rôl y 'Swyddog Dynodedig Diogelu' a fydd yn rheoli'r broses pryderon proffesiynol i bobl mewn asiantaeth bartner arall (fel iechyd)
- Bydd atgyfeiriadau amddiffyn oedolion a phryderon proffesiynol yn cyd-redeg
- Bydd trafodaethau strategaeth proffesiynol bob amser yn cael eu cynnal gyda'r heddlu i benderfynu p'un a yw hyn yn bodloni'r trothwy ar gyfer pryderon proffesiynol
- Canllaw ar bynciau a strwythur y Cyfarfod Pryderon Proffesiynol
- Mae'n bosibl cofnodi pedwar canlyniad posibl erbyn hyn; Heb ei brofi, Wedi'i brofi, Di-sail ac Wedi'i ffugio'n fwriadol neu'n faleisus
- Bydd angen i weithwyr proffesiynol/pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth sy'n cael eu trafod gael eu cofnodi ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a rhaid rhoi gwybod iddynt am hyn

Camau rhanbarthol/gwaith sy'n mynd rhagddo:

- Adnodd trothwy rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion, sy'n cynnwys nodi pryderon proffesiynol
- Agenda/Cymorth Cof newydd ar gyfer cyfarfod pryderon proffesiynol
- Canllaw ar ganlyniadau i gynorthwyo ymarferwyr i sgorio honiadau
- Cytundeb ar sut bydd y Broses Diogelu Oedolion a'r Broses Pryderon Proffesiynol yn cyd-redeg
- Cynghori'r heddlu am y cynnydd posibl yn y galw am drafodaethau strategaeth
- Polisi diogelu/cadw data System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ynghylch gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u henwi
- Ystyried effaith canllawiau cenedlaethol ar y polisi rhanbarthol proffesiynol ar bryderon proffesiynol
- Ystyried/ cadarnhau sut bydd proses pryderon ymarferwyr yn rhyngwynebu ag achos diogelu oedolyn, yn enwedig achosion diogelu oedolion dirprwyedig yn ymwneud ag iechyd
- Ystyried sut y gallwn weithio gyda darparwyr, comisiynwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru i weithredu newidiadau/gwelliannau o ran y cyfarfod strategaeth broffesiynol

Ystyriaethau eraill:

- Mae'r broses flaenorol ynghylch pryderon proffesiynol yn gysylltiedig ag ymarferwyr sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriad diogelu penodol ym maes iechyd wedi'i rheoli'n flaenorol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Yn y gweithdrefnau newydd, ni chyfeirir at rôl y 'Swyddog Dynodedig Diogelu' a fydd yn ymgymryd â'r broses hon, fel rôl sy'n briodol i'w dirprwyo i asiantaeth arall. Bydd angen holi Bwrdd Prosiect Cenedlaethol Gweithdrefnau Diogelu Cymru am hyn i gael eglurhad ac arweiniad ychwanegol ynghylch dirprwyo cyfrifoldebau.